

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

DYDD GWENER, 9 MEHEFIN 2023

PRESENNOL Cynghorydd L. Davies (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

H.A.L. Evans

W.T. Evans

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

P.T. Warlow

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

N. Daniel, Pennaeth Polisi a TG;

G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;

S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;

R. Morris, Swyddog Cefnogi Aeolodau;

M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):

L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;

H. Daniels, Partner Busnes Arweiniol (Gweithlu'r Dyfodol);

A. Machin, Rheolwr Dysgu a Datblygu;

D. Neuman, Lead Business Partner (Learning & Development);

S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aeolodau

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin: 10.00 yb - 10.30 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd F. Walters.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

3. COFNODION - 8 MEDI 2022

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL Iofnodi cofnodion y cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 8 Medi 2022 gan eu bod yn gywir.

4. ADOLYGIAD O'R GWASANAETH YMHOLIADAU GAN AELODAU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar ganlyniad adolygiad o broses ymholiadau'r Aelodau, a gynhaliwyd yn dilyn adborth gan Aelodau etholedig, a oedd wedi ymchwilio i weld a oedd y weinyddiaeth a'r gweithdrefnau oedd ar waith yn gweithio'n effeithiol ac a oedd modd gwneud unrhyw welliannau. Yng ngoleuni'r holl dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwaith ymgysylltu helaeth a wnaed fel rhan o'r adolygiad, cynigiwyd 8 o argymhellion fel y nodwyd yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad i wella proses Ymholiadau'r Aelodau.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

5. Y DIWEDDARAF AM RAGLEN SEFYDLU'R AELODAU A'R CYNLLUN BLYNYDDOL

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am werthuso'r rhaglen Sefydlu Aelodau ac yn gofyn am farn ynghylch Cynllun Datblygu Blynyddol arfaethedig 2023/2024.

Roedd y Rhaglen Sefydlu yn cynnwys cyfanswm o 40 o sesiynau datblygu a oedd wedi'u rhannu yn sesiynau ar gyfer pob aelod, sesiynau penodol ar gyfer aelodau'r Cabinet a rhai ar gyfer aelodau paneli sydd ar bwyllgorau perthnasol. Er mwyn penderfynu a oedd y Rhaglen Sefydlu wedi bod yn effeithiol o ran darparu digon o wybodaeth a dealltwriaeth i aelodau, cynhaliwyd tri grŵp ffocws yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2023 ac anfonwyd arolwg at yr holl aelodau ym mis Chwefror i ofyn am eu hadborth a nodwyd wedyn yn yr adroddiad.

Cafodd y sylwadau a wnaed gan yr aelodau yn y grwpiau ffocws a grybwyllwyd uchod, yn ogystal ag ar yr arolwg, eu hystyried a gwnaethant gyfrannu at Gynllun Datblygu Blynyddol 2023-24. Fel rhan o'r Cynllun cynigiwyd y byddai cyflwyno Rhaglen Fentora yn ffurf effeithiol o ddatblygu.

Mynegwyd siom ynghylch y niferoedd isel oedd yn bresennol mewn rhai sesiynau sefydlu aelodau. Nodwyd bod yr holl sesiynau ar gael i'w gweld ar-lein. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai rhai sesiynau yn y dyfodol fod yn fyrrach o bosibl gyda deunydd ategol yn cael ei ddarparu i'r aelodau ymlaen llaw. Diolchodd i'r holl swyddogion a fu'n rhan o'r gwaith o drefnu'r sesiynau.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r gwerthusiad o'r rhaglen Sefydlu Aelodau a chymeradwyo Cynllun Datblygu Blynyddol arfaethedig 2023/2024.

6. ADRODDIADAU BLYNYDDOL CYNGHORWYR

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyo templed ar gyfer Adroddiadau Blynyddol y Cyngorwyr. O dan Fesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2011 rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cyfleusterau i Gyngorwyr ar gyfer llunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol, ac i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith fod disgwyl i Gyngorwyr lunio adroddiadau blynyddol ynghylch eu gweithgareddau. Fodd bynnag, nid oedd adroddiadau blynyddol yn orfodol ac roedd yn fater personol i Gyngorwyr p'un a oeddent yn dymuno cyhoeddi Adroddiad Blynyddol.

Byddai'r templed adroddiadau, pe bai'n cael ei gymeradwyo, yn cael ei ddosbarthu i bob Aelod Etholedig. Yna gallai'r Aelodau Etholedig hynny a oedd am lunio Adroddiad Blynyddol gwblhau drafft cychwynnol o'u hadroddiad ar gyfer y cyfnod o 1 Mai y flwyddyn flaenorol tan fis Mai y flwyddyn gyfredol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gadarnhau templed Adroddiadau Blynyddol y Cyngorwyr o 2023-24 ymlaen.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

7. THE JO COX COMMISSION ON CIVILITY

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn crynhoi cynnydd comisiwn *Jo Cox Commission on Civility* wrth godi ymwybyddiaeth o'r effaith niweidiol y mae'r lefelau presennol o gamdriniaeth a bygwth mewn bywyd gwleidyddol yn ei chael ar unigolion, democratiaeth a chymdeithas. Lanswyd y Comisiwn ar 28 Chwefror 2023 ac roedd yn ceisio sbarduno newid yn nemocratiaeth Prydain trwy weithio i ddod o hyd i atebion ymarferol i wneud bywyd yn fwy diogel i gynrychiolwyr gwleidyddol ac ymgeiswyr am swyddi.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad a bod Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn anfon llythyr at y Comisiwn yn cadarnhau cefnogaeth y Cyngor a'i barodrwydd i gymryd rhan yn ei waith.

8. SWYDDOGAETH Y GWASANAETH DEMOCRATAIDD

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am sicrhau bod staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n ddigonol i gyflawni'r Broses Ddemocrataidd.

Mynegwyd pryderon ynghylch nifer y staff o'r adain Gwasanaethau Democrataidd sy'n ofynnol i gefnogi cyfarfodydd aml-leoliad yn barhaus, yn enwedig gan nad oedd adnoddau ychwanegol wedi'u darparu. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod Llywodraeth Cymru, a oedd wedi awdurdodi cyfarfodydd aml-leoliad, wedi cael gwybod am y mater a oedd yn effeithio ar bob awdurdod lleol yng Nghymru ond nad oedd wedi dyrannu unrhyw gyllid ychwanegol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad a bod y pryderon a godwyd yn cael eu cyfleu i Lywodraeth Cymru.

9. CYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Blaenraglen Waith awgrymedig ar gyfer blwyddyn y cyngor 2023/24.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu Blaenraglen Waith 2023/24 Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

CADEIRYDD

DYDDIAD

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf